# CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI
# LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL


| | |
|---|---|
| Clerc a Phrif Swyddog Cyllid | 26 Stryd Fawr |
| *Clerk and Chief Financial Officer* | Bethesda |
| **Bethan Roberts** | Gwynedd |
| Rhif Ffôn: 01248 602131 | LL57 3AE |
| Ebost: CyngorLlandygai@ogwen.org | |


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cygnor a gynhaliwyd yn rhithiol drwy Zoom
**Nos Iau 19 Hydref 2023 am 18.30**

**PRESENNOL:**

Y Cynghorydd Mair Owen Pierce
Y Cynghorydd Dafydd Owen
Y Cynghorydd Dafydd Roberts
Y Cynghorydd Lowri Jones
Y Cynghorydd Sian Beidas
Y Cynghorydd David Roberts
Y Cynghorydd Iwan Hywel
Y Cynghorydd Huw Jones

1. **Croesawyd** pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Cyng. Mair O Pierce.

   **Ymddiheuriadau** gan y Cyngr. Gareth P Williams, Mary Hayes, Carwyn Edwards, Anwen Jones a Beca Roberts.

2. **Cofnodion**
   **Penderfynwyd:** Derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Medi 2023.

3. **Materion yn codi o'r cofnodion**

3.1 **Problemau gôr-yrru yn Mynydd Llandygai ac wrth Ysgol Bodfeurig –** Derbyniwyd ymateb gan Cyngor Gwynedd – Nodwyd fod yr adran wedi gorfod ymrwymo i ddarparu cynllun 20 mya Llywodraeth Cymru ar y ffordd hwn a llawer o ffyrdd eraill, ac fod hyn wedi bod yn broses hir ac yn drwm ar eu hadnoddau. Nodwyd fod yr adran mewn cyfnod o ddisgwyl i weld beth yw gwir effaith y newidiadau yma. Adroddwyd nid yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi unrhyw arweiniad i Gyngor Gwynedd o'r bwriad i cynnig grantiau i awdurdodau lleol i ddarparu gwelliannau diogelwch ar y rhwydwaith. O ganlyniad, nid yw'r Cyngor mewn sefyllfa i ymrwymo i unrhyw gynllun ar hyn o bryd. Penderfynwyd y bydd y Cyngor yn cadw llygaid ar y sefyllfa, gan obeithio bydd y cynllun 20mya yn gwella'r sefyllfa.

3.2 **Llecyn Tir, Bont Tŵr –** Cadarnhawyd fod y Clerc yn gael cyfarfod gyda Matt Brown, Cwmni Savills ar 26ain o Hydref.

3.3 **Llwybr Rhif 3** – Cadarnhawyd fod y Clerc a Cyng. Dafydd Roberts yn cyfarfod gyda'r swyddogion llwybrau ar y 26ain o Hydref.

3.4 **Drychau traffig, Lon y Grug/Llwybr Main –** Nodwyd fod y Clerc wedi gael trafodaeth dros ffôn hefo Ian Morgan, Cyngor Gwynedd – Adroddwyd fod Ian Morgan am edrych i mewn i'r posiblrwydd o gael drychau ar dir preifat -  ar y gweill.

**3.5 Mainc Pentref Llandygai –** Y pentref wedi derbyn mainc fel anrheg – Penderfynwyd bydd y Clerc yn mynd ymlaen i drefnu creu sylfaen a gosod y fainc yn ei le.

**3.6 Hysbysfwrdd ger Ysgol Tregarth –**Y Clerc i weld os oes modd atgyweirio'r hysbysfwrdd gwreiddiol – Y Clerc i holi contractwr lleol i wneud y gwaith.

**3.7 Seddi Gwag –** Nodwyd fod y Clerc wedi llunio llythyr yn hysbysebu'r sedd wag, cytunwyd bydd yn danfon y llythyr drwy'r post i drigolion yr ardal - ar y gweill.

**3.8 Biniau Baw Ci –** Nodwyd fod y Cyng. Beca Roberts yn gwneud cais am finiau newydd – un yn Sling ac un ar Lon y Grug – ar y gweill.

**3.9 Arhosfan Bws/'Pull-in Bay' Llys y Gwynt –** Y Clerc wedi holi Cyngor Gwynedd os oes modd gael arhosfan/pull-in bay ger Llys y Gwynt – dim ymateb hyd yn hyn.

**3.10 Mynedfa Lon Las Ogwen ger Modurdy Pandy** – estynu'r linell wen a gosod 'road studs' coch (Ian Morgan) – ar y gweill.

**3.11 Bont ar y ffordd B4409 ger Moelyci –** angen arwyddion blaenoriaeth un-ffordd ymlaen (Ian Morgan) – ar y gweill.

**3.12 Llyfrgell lloches bws Mynydd Llandygai –** Adroddwyd fod y Clerc wedi derbyn nifer o ebyst gan drigolion lleol ynglyn a'r lloches bws. Nodwyd fod y Clerc wedi rhoi nodyn ar 'Facebook' i egluro'r sefyllfa. Penderfynwyd y bydd y Cyngor yn rhoid cylfe i'r gwirfoddolwyr cymeryd cyfrifoldeb am y lloches – y Clerc a'r Swyddog Cynnal i gadw llygad ar y sefyllfa yn y dyfodol.

**3.13 Craig y Pandy** – dŵr yn codi o dan y lôn a golau stryd ddim yn gweithio – y Clerc wedi adrodd i Cyngor Gwynedd – ar y gweill.

**3.14 Llinellau melyn –** Adroddwyd y bydd y Cyngr. Beca Roberts a Dafydd Roberts yn cyfarfod gyda Andrew Gregson, Cyngor Gwynedd, i drafod y posibilrwydd o gael llinellau melyn ar y lleoliadau isod:

- Cyffordd o'r A5 i Dregarth tuag at Fferm Dinas (ceir yn parcio ar ochr chwith i'r ffordd)
- Mynediad Lôn Las Ogwen wrth Modurdy Pandy
- Cyffordd ar waelod Braich Talog
- Ffordd Felin Hen (A4244) lle mae'r ceir yn parcio ar ochr chwith i'r ffordd

## 4. Gohebiaeth

Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Hydref 2023'
**Cyflwynwyd:** Mr Gareth Edwards, Pennaeth Ysgol Bodfeurig a Tregarth – Maes Parcio – Adroddwyd nid yw'r Cyngor Cymuned yn berchen ar y darn yma o dir, y Clerc i ymateb.
**Cyflwynwyd:** Welsh Slate – Bwriad o ddadgofrestru tir comin – Trafodwyd y cynnwys a nodwyd fod y Cyng. Dafydd Roberts wedi bod mewn cyswllt gyda cwmni Breedon. Penderfynwyd fod y Cyngor Cymuned yn cefnogi'r datblygiad hwn. Y Clerc i holi Breedon am ail-leoli'r gorlan hanesyddol, a sut fydd yr ailleoli yn gael ei gwblhau.
**Cyflwynwyd:** Cyngor Cymuned Llanllechid – Tai Fforddiadwy – Penderfynwyd cefnogi'r llythyr.

## 5. Llwybrau Cyhoeddus

**Llwybrau Cyhoeddus –** Cytunwyd bydd y Clerc yn trefnu cyfarfod gyda'r Is-bwyllgor cyn gynted a phosib – ar y gweill.

## 6. Gwaith y mis

**Tipio anghyfreithlon – Lon Dinas –** Nodwyd fod ychwaneg o dipio anghyfreithlon ar hyd Lon Dinas,  y Clerc wedi hysbysu Stad Penrhyn. Penderfynwyd y bydd y Clerc yn holi

Cyngor Gwynedd am gyfarfod rhwng y Cyngor Cymuned, Cyngor Gwynedd a Stad Penrhyn, i drafod y sefyllfa, ac i weld os oes modd gael camerau a/neu arwyddion ar hyd y ffordd.

**7. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr**
**Ysgol Tregarth –** Adroddwyd fod y pennaeth newydd, Mr Gareth Edwards wedi dechrau ei swydd, ac wedi setlo i mewn yn dda yn yr ysgol. Nodwyd fod pryderon ynglyn a'r clwb gofal rhwng 3 a 3.30yh - penderfynwyd y bydd yr ysgol yn ymgynghori ynglyn ag oriau agor yr ysgol fel bod disgyblion cyfnod allweddol 1 a 2 yn darfod yr 'run pryd, fel bod ddim angen clwb gofal.

**8. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu**
**8.1** Pawb wedi derbyn Adroddiad Ariannol gyda rhestr taliadau a mantolen am y flwyddyn gyfredol. Penderfynwyd derbyn yr adroddiad.

**9. Taliadau**
Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Partneriaeth Ogwen | Gwasanaeth Clercio | £10,124.33 |

**10. Penderfyniadau Cynllunio**

| | |
|---|---|
| **C18/0767/16/LL** | Coed Wern, Glasinfryn<br>Datblygiad llety gwyliau (cynllun diwygiedig) sy'n golygu:- Gosod sylfeini ar gyfer cabannau gyda decio cysylltiedig. Gosod sylfeini ar gyfer podiau glampio. Seilwaith cysylltiedig i gynnwys ffyrdd mewnol, mannau parcio, systemau draenio cynaliadwy ynghyd a draenio dwr aflan. Tirlunio meddal a chaled gan gynnwys torri rhai coed, cadw coed ac ymgymryd a gwelliannau i'r goedlan presennol. Codi derbynfa/adeilad gwerthiant ynghyd ac ail-orchuddio'r adeilad presennol a'i ddefnyddio fel hwb e-beicio gyda pwyntiau gwefru trydan.<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C23/0448/16/LL** | 7 Y Gefnan, Mynydd Llandygai<br>Dymchwel adeilad bresennol ac ail godi annedd newydd.<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |
| **C23/0594/16/DT** | 2 Fron Hyfryd, Tregarth<br>Estyniad unllawr yng nghefn yr eiddo<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd gydag amodau. |
| **C23/0538/16/DT** | Bwthyn Newydd, Pen y Groes, Tregarth<br>Cynyddu uchder tô presennol y garej.<br>Estyniad deulawr i gefn y prif dŷ<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd gydag amodau. |

| | |
|---|---|
| **C23/0614/16/LL** | Penrala, Tregarth<br>Cais llawn i godi 7 tŷ ynghyd â gwaith cysylltiedig i gynnwys gwelliant i'r fynedfa bresennol<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |

**11. Ceisiadau Cynllunio**

| | |
|---|---|
| **C23/0810/16/DT** | 4 Ffrwd Galed, Tregarth<br>Estyniad un llawr yng nghefn yr annedd<br>**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad. |
| **C23/0777/16/DT** | 14 Y Gefnan, Mynydd Llandygai<br>estyniad llawr cyntaf newydd yn y cefn ynghyd ag ardal to fflat newydd gydag atriwm<br>**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad. |
| **C23/0728/16/LL**<br>*(Y Cyngr. Carwyn Edwards a Iwan Hywel yn datgan diddordeb)* | Cae Clyd Dob, Tregarth<br>Codi annedd teuluol<br>**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad. |

**12. Unrhyw fater brys arall**
Dim.